**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**18 GORFFENNAF 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Mercher, 18 Gorffennaf 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips and Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd Arnold Woolley – ar gyfer Eitemau Agenda 6.1 (058237) a 6.2 (057056)
Y Cynghorydd Sian Braun – ar gyfer Eitem Agenda 6.3 (058304)
Y Cynghorydd Dennis Hutchinson – ar gyfer Eitem Agenda 6.4 (058212) - gohiriwyd
Y Cynghorydd Cindy Hinds – ar gyfer Eitem Agenda 6.7 (057388) – gohiriwyd

**YN Y CYFARFOD:**
Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygu Priffyrdd; Uwch Swyddog Mwynau a Gwastraff; Uwch Gyfreithiwr; Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 14. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson gysylltiad personol ac anfanteisiol ar eitem agenda 6.4 a rhoddodd wybod y cafodd drwydded gan y Pwyllgor Safonau i siarad fel Aelod lleol ar eitem agenda (058212).

Datganodd y Cynghorydd Richard Lloyd gysylltiad personol ac anfanteisiol ar eitem agenda 6.1 (058237) gan fod yr ymgeisydd yn gwsmer iddo a dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y ddadl a chyn bwrw pleidlais ar y cais.

Datganodd y Cynghorydd Sean Bibby gysylltiad personol ac anfanteisiol ar eitem agenda 6.3 (058304) ac eitem agenda 6.8 (058310) gan mai ef oedd Is-gadeirydd Bwrdd Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru a dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y ddadl a'r bleidlais ar y cais. Yn ogystal, datganodd y Cynghorydd Bibby iddo wrthwynebu'n ffurfiol a darparodd gymorth i drigolion lleol oedd yn gwrthwynebu cais 6.6 (058282). Dywedodd y byddai'n siarad am dair munud ac yn gadael yr ystafell cyn y ddadl a'r bleidlais ar y cais.

Datganodd y Cynghorydd Ian Dunbar gysylltiad personol ac anfanteisiol ar eitem agenda 6.1 (058237) gan fod yr ymgeisydd yn ffrind agos iddo. Datganodd gysylltiad personol ac anfanteisiol hefyd ar eitem agenda 6.4 (058212) gan fod yr ymgeisydd yn gyd Ynad Lleol. Dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y ddadl a'r bleidlais ar y ddau gais.

Datganodd y Cynghorydd Dave Hughes gysylltiad personol ac anfanteisiol ar eitem agenda 6.1 (058237) gan fod yr ymgeisydd yn ffrind agos a dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y ddadl a'r bleidlais ar y cais.

**15. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen yr arsylwadau hwyr a ddosbarthwyd yn y cyfarfod ac fe'u hatodwyd i agenda gwefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4148&LLL=0

**16. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion drafft y cyfarfod ar 20 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

**17. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) fod yr eitem ganlynol wedi'i hargymell i'w gohirio er mwyn galluogi'r datblygwr i egluro perchnogaeth o'r tir ar gyfer y mynediad arfaethedig:-

**Eitem Agenda 6.5 - Cais llawn – Codi 14 Annedd a Gwaith Cysylltiedig yn Within Cottage a Cheshire Lane, Alltami Road, Bwcle (058229)**

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) at lythyr a ddaeth i law cyn dechrau'r cyfarfod gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth ar gyfer Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, y dosbarthwyd copïau ohono i'r Aelodau. Rhoddodd y llythyr gyfarwyddyd i'r Cyngor ddatgymhwyso paragraff 6.2 TAN 1 yn syth. Felly, argymhellodd gohirio'r eitemau canlynol er mwyn rhoi'r cyfle i ailystyried y pwysau a briodolwyd i'r angen i gynyddu'r cyflenwad tir tai yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol:-

**Eitem Agenda 6.4 - Cais Amlinellol - Datblygiad Preswyl, gan gynnwys Mynediad, Lle Agored a'r Holl Waith Cysylltiedig yn Woodside Cottages, Bank Lane, Drury (058212)**

**Eitem Agenda 6.7 Cais Amlinellol – Codi hyd at 36 uned o dai ymddeol, lle agored ac isadeiledd cysylltiedig i bobl 55 oed a hŷn gyda manylion mynediad i'r safle yn Rhos Road, Penyffordd (057388)**

Symudodd y Cynghorydd Chris Bithell y gohiriad a eiliwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor.

Croesawodd y Cynghorwyr Patrick Heesom a Chris Bithell y cyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion gwledig a diolchodd i'r swyddogion am y gwaith a wnaed yn y mater hwn.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitemau agenda 6.4 (058212), 6.5 (058229) a 6.7 (057388) yn cael eu gohirio i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Pwyllgor am y rhesymau a nodwyd.

## 18. ADRODDIADAU'R (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangoswyd ar atodlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

## 19. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG A FYNYCHODD

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd 56 aelod o'r cyhoedd a dim aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 4.26 pm)

..................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gweld trwy droi at y llyfrgell gweddarlledu yn: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 18 GORFFENNAF 2018**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058237 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn - Codi 435 o Anheddau Preswyl ac Uned Adwerthu 450$m^2$ yn Spon Green Farm, Spon Green, Bwcle. | Siaradodd Mr.N. Culkin i gefnogi'r cais ar ran yr ymgeisydd.<br><br>Siaradodd Mr. J. Woolley yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd A. Woolley, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057056 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Amlinellol am Ddatblygiad Preswyl yn Megs Lane, Bwcle. | Siaradodd Mr. M. Lewis yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd A. Woolley, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 058304 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais llawn – Datblygiad Preswyl am 41 Annedd a Gerddi a Maes Parcio Cysylltiedig yn Nant y Gro, Prestatyn. | Siaradodd Mr.S. Jones i gefnogi'r cais ar ran yr ymgeisydd.<br><br>Siaradodd Ms. K. James yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd S. Braun, fel Aelod Lleol, i gefnogi'r cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a osodwyd yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058212 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Amlinellol – Datblygiad Preswyl, Gan Gynnwys Mynediad, Lle Agored a'r Holl Waith Cysylltiedig yn Woodside Cottages, Bank Lane, Drury. | | GOHIRIWYD |
| 058229 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Codi 14 Annedd a Gwaith Cysylltiedig yn Within Cottage a Cheshire Lane, Alltami Road, Bwcle. | | GOHIRIWYD |
| 058282 | Cyngor Tref Shotton | Newid Defnydd o C3 (Anheddau) i C4 (Tŷ Amlfeddiannaeth) yn 15 Bridge Street, Shotton. | Siaradodd y Cynghorydd S. Bibby, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a osodwyd yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 057388 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais Amlinellol – Codi hyd at 36 uned o dai ymddeol i bobl dros 55, lle agored ac isadeiledd cysylltiedig gyda manylion mynediad i'r safle yn Rhos Road, Penyffordd. | | GOHIRIWYD |
| 058310 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais Llawn - Codi 24 Annedd a Gerddi a Maes Parcio Cysylltiedig ar Dir i'r Gorllewin o Greenwood Grange, Chester Road, Dobshill. | Siaradodd Mr.S. Jones i gefnogi'r cais ar ran yr ymgeisydd. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a osodwyd yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 058270 | Cyngor Tref Cei Connah | Adeiladu a Gweithredu Cyfleuster Rheoli Gwastraff i Reoli Gwastraff Bwrdeistrefol, Masnachol a Diwydiannol, sy'n Cynnwys: Neuadd Derbynfa Wastraff gydag Ardal Dipio i Bydew Lefel Llawr, Neuadd Ddidoli gydag Offer Cysylltiedig ar gyfer Gwahanu a Phrosesu, Neuadd Tanwydd o Sbwriel, Ystafell Reoli, Ystafell Drydanol a Chyfleusterau i'r Gweithwyr, Fferm Tanc Treuliad Anaerobig ac Isadeiledd Cysylltiedig ar Dir oddi ar Weighbridge Road, Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy. | Siaradodd Mr. D. Green i gefnogi'r cais ar ran yr ymgeisydd. | Rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a osodwyd yn yr adroddiad ac yn unol ag argymhelliad y swyddog, ar yr amod, ym marn y Prif Swyddog Cynllunio (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) na chodwyd unrhyw faterion perthnasol gan Gyngor Tref Cei Connah ar 31 Gorffennaf. Os, ym marn y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y codir materion perthnasol newydd erbyn 7 Awst 2018 gan Gyngor Tref Cei Connah, bydd y cais yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio. |